



## **ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**21 CHWEFROR 2018**

---

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Cofrestr Risg GwE

---

### **1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

### **2.0 Cefndir**

2.1 Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru.

2.2 Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol bydd GwE yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

### **3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

3.2 Mae'r holl risgiau wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau; diweddarwyd cyfanswm o saith risg (Risg 12/14/15/16/17/18/21).

3.3 Mae Risg 23 yn risg newydd.

3.4 Awgrymir hefyd dileu y risgiau a ganlyn:

---

RHIF Y RISG	RHANBART HOL neu LEOL	CRYNODEB	BLAENORI AETH GwE	RISG A NODWYD	TEBYGOLRWY DD Y RISG	EFFAITH Y RISG	GWEITHGAREDDAU PRESENNOL / LLINIARU	RISG WEDDILLIO L / RISG GYFFREDIN OL	PERCHEN NOG Y RISG	CAMAU GWEITHREDU YN Y DYFODOL
3	Rh	Cyllidol	I GYD	Mae cyllid grant yn cael ei ddsbarthu'n anghydradd rhwng y consortia gan arwain at anawsterau wrth gymharu perfformiad.	C	C	Mae trafodaethau yn parhau ar lefel RhG y Consortia a LIC i gytuno ar fformiwla mwy cydradd ar gyfer dosbarthu'r grant.	I	RhG	Gwaith meincnodi yn mynd rhagddydd. Trafodaethau ar y gweill ar lefel RhG o ran adrodd a phosibiliadau llywio'r deilliannau a'r penderfyniadau.
20	Rh	Safonau	B1/B2	Strategaeth yr Iaith Gymraeg - dim digon o gapasiti nac adnoddau i weithredu'r strategaeth	C	C	Adnoddau wedi'u hadnabod a'u cadarnhau. Cynllun gweithredu Is-grŵp Addysg Gymraeg ar waith. Yr angen am fwy o gapasisti wedi'i nodi.	C	RhG	Rheolwr Prosiect i'w benodi.

Dilynwyd y matrices risg canlynol wrth bennu statws y risg weddilliol.

Matrics Risg					
<b>Tebygolrwydd</b>	Bron yn sicr	Isel (4)	Canolig (8)	Uchel (12)	Uchel (16)
	Tebygol	Isel (3)	Canolig (6)	Canolig (9)	Uchel (12)
	Posib	Isel (2)	Isel (4)	Canolig (6)	Canolig (8)
	Annhebygol	Isel (1)	Isel (2)	Isel (3)	Isel (4)
		<b>Isel</b>	<b>Canolig</b>	<b>Uchel</b>	<b>Hynod uchel</b>
<b>Effaith</b>					

#### 4.0 Argymhellion

- 4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor adolygu cynnwys y gofrestr.
- 4.2 Penderfynu a oes unrhyw risgiau y dymuna'r Cyd-bwyllgor eu cyflwyno i sylw'r Cabinet perthnasol ac ati.

#### 5.0 Goblygiadau Ariannol

- 5.1 Mae rheoli risg a rheolaeth ariannol effeithiol yn helpu i fonitro costau ac yn galluogi gwerth am arian.

#### 6.0 Effaith ar Gydraddoldeb

- 6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### 7.0 Goblygiadau Personél

- 7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

#### 8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

- 8.1 Mae'r Bwrdd Ansawdd Busnes, Bwrdd Ansawdd Rhanbarthol a'r Bwrdd Rheoli wedi trafod cynnwys y gofrestr ac wedi diwygio'r risgiau fel y bo'n briodol.

#### 9.0 Atodiadau

- 9.1 Cofrestr Risg GwE

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

### **Swyddog Monitro:**

Mae monitro a rheoli risgiau GwE yn un o swyddogaethau penodol y Cyd- Bwyllgor. Dylai'r aelodau fodloni eu hunain fod y risgiau priodol yn cael eu hadnabod a bod y camau rheoli yn cynrychioli ymateb priodol.

### **Swyddog Cyllid Statudol:**

Credaf fod cofrestr risg GwE ar ffurf safonol ac yn cynnwys gwybodaeth addas. Bydd Adran Gyllid Gwynedd yn darparu cefnogaeth i Reolwr Gyfarwyddwr GwE ynghylch risgiau cyllidol. Cyflwynir sylwadau pellach ar risgiau penodol, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cydbwyllgor ar 21/02/2018.